

# All Duw wneud hyn eto?

*“Oni fyddi’n ein hadfywio eto, er mwyn i’th bobl lawenhau ynot?” (adn. 6)*

## Beth am ddarllen Salm 85:1–13 ac yna myfyrio

Mewn diwygiad, mae tywalltiad yr Ysbryd mor sylweddol fel bod cymunedau cyfan yn cael eu heffeithio, mae’r Ysbryd yn gorffwys ar bobl am fisoedd, os nad blynyddoedd. Mae yna berygl mewn galw unrhyw beth arall yn ddiwygiad a gallai hynny olygu bod ein disgwyladau yn mynd yn is. Bu i Dduw ymweld yn fynych â Chymru yn y gorffennol, ac mae llawer o’n diwinyddion yn disgrifio tair nodwedd sydd yn perthyn i’r ffenomen: (1) ymwybyddiaeth real o bresenoldeb Duw; (2) ymdeimlad dwfn o bechod ag awydd i gefnu arno; (3) dylanwad nerthol ar y gymuned. Mae’n annhebyg y gellir disgrifio gwaith fel diwygiad heb yr arwyddion hyn.

Mae Diwygiad 1904–05 yn enghraifft o hyn. Gwelwyd glowyr a chwarelwyr yn dod yn ymwybodol o nerth Duw, a hynny yn ddwfn o dan y ddaear, a byddai rhai yn syrthio ar eu gliniau mewn edifeirwch. Mi fyddai oedfaon yn bethau rhyfeddol, gan y byddai yna bobl yn codi ac yn gweiddi, ‘beth sydd raid imi wneud i fod yn gadwedig?’ Mi fyddai eraill o dan y fath argyhoeddiad fel y byddai yna bledio am faddeuant. Yn sgil hyn, mi fyddai cymunedau cyfan yn cael eu torri i lawr, gyda chanlyniadau rhyfeddol. Mae sôn fod yr ynadon yn y Rhondda wedi cael menyg gwynion gan y Cyngor, arwydd o burdeb oedd yn adlewyrchu’r ffaith fod cyn lleied o waith ganddynt i’w gyflawni.

Wrth feddwl am yr hyn a fu, y cwestiwn a erys yw, a all Duw wneud hyn eto? Credaf o argyhoeddiad ei fod yn medru ac yn dymuno gwneud hynny.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 2:42–47; 5:1–11

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd nodweddion diwygiad Jerwsalem?
2. Beth oedd y rheswm dros y gwrthwynebiad i bechod?

## Gweddi

O! Dduw, fy Nhad, cri’r Salmydd yw fy nghri innau, oni fyddi’n ein hadfywio eto? Disgyn Iôr, a rhwyga’r nefoedd, tywallt Ysbryd gras i lawr; disgyn fel y toddo’r brynïau, diosg fraich dy allu mawr. Yn enw Iesu. Amen.